# Ymgynghoriad ar Adolygiad Ffiniau Ardaloedd Draenio Mewnol - Geirfa

Mae'r ddogfen eglurhaol hon yn rhoi trosolwg o'r termau a ddefnyddir yn y dogfennau ymgynghori ar gyfer ymgynghoriad Adolygiad Ffiniau Rhanbarth Draenio Mewnol.

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Bioamrywiaeth | Yr amrywioldeb ymhlith creaduriaid byw o bob ffynhonnell, gan gynnwys ecosystemau tirol, morol ac ecosystemau dyfrol eraill a'r systemau ecolegol cymhleth y maent yn rhan ohonynt; mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o fewn rhywogaethau, rhwng rhywogaethau ac amrywiaeth ecosystemau. |
| Dalgylch | Darn o dir lle mae dŵr yn ymgasglu pan yw'n glawio, ac sydd yn aml wedi ei amgylchynu â bryniau. |
| Sianeli draenio | Ffosydd a chyrsiau dŵr o fewn ADM. |
| Grŵp Cynghori Ardal Ddraenio Mewnol | Grŵp o bobl sy'n byw ac yn gweithio o fewn ADM sy'n rhoi cyngor arbenigol i CNC i sicrhau gwasanaeth o safon uchel a phriodol yn yr ADM. |
| FCERM | Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. |
| Amddiffynfa rhag llifogydd | Unrhyw waith parhaol a adeiladwyd, sy'n cael ei weithredu neu ei gynnal gan y rheolwr ar gyfer rheoli perygl llifogydd. |
| Llifogydd dŵr daear | Mae hyn yn digwydd pan fydd lefelau dŵr yn y ddaear yn codi uwchben yr wyneb naturiol. Mae ardaloedd o dir isel sy'n gorwedd ar strata athraidd mewn perygl arbennig. |
| Hydroleg | Yr astudiaeth o ddŵr. |
| Ardal Ddraenio Mewnol (ADM) | Ardaloedd o dir lle mae angen arbennig am ddraeniad a rheoli lefelau dŵr. Gweithredir Ardaloedd Draenio Mewnol yn unol â Deddf Draenio Tir 1991. |
| Bwrdd Draenio Mewnol (BDM) | Y Bwrdd sy'n gweithredu ac yn rheoli'r Ardaloedd Draenio Mewnol. Yng Nghymru, mae Bwrdd CNC yn gweithredu fel BDM ar gyfer yr holl Ardaloedd Draenio Mewnol. |
| Prif afon | Cwrs dŵr a ddangosir felly ar fap prif afonydd ac sy'n cynnwys unrhyw strwythur neu ddyfais ar gyfer rheoli llif dŵr i, neu i mewn neu allan o'r sianel:<br>(a) sy'n strwythur neu'n ddyfais sydd yn y sianel neu ar unrhyw ran o lannau'r sianel; ac |

| | |
|---|---|
| | (b) nad yw'n strwythur neu ddyfais sy'n perthyn i neu sy'n cael ei reoli gan fwrdd draenio mewnol |
| CNC | Cyfoeth Naturiol Cymru. Mabwysiadodd CNC swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru ar 1 Ebrill 2013. |
| Bwrdd CNC | Mae'n ymgymryd â rôl Bwrdd Draenio Mewnol ar gyfer yr holl Ardaloedd Draenio Mewnol yng Nghymru yn ogystal â dyletswyddau eraill. |
| Cyrsiau dŵr cyffredin | Yr holl gyrsiau dŵr nad ydynt wedi eu dynodi fel Prif Afonydd, ac sy'n cael eu rheoli gan Awdurdodau Lleol neu Fyrddau Draenio Mewnol os oes rhai. |
| Cronfa ddŵr | Llyn naturiol neu artiffisial lle mae dŵr yn cael ei gasglu a'i storio nes bydd ei angen. Gellir defnyddio cronfeydd dŵr ar gyfer dyfrhau, hamdden, darparu cyflenwad dŵr ar gyfer anghenion trefol, pŵer trydan dŵr neu reoli llif dŵr. |
| Awdurdodau rheoli risg | Sefydliadau a chanddynt rôl allweddol mewn rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol fel sy'n cael ei ddiffinio gan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr. Y rhain yw Cyfoeth Naturiol Cymru, prif awdurdodau llifogydd lleol, byrddau draenio mewnol, cwmnïau dŵr, ac awdurdodau priffyrdd. |
| Gwaith rheoli afon | Unrhyw strwythur neu ddyfais a ddefnyddir ar gyfer mesur neu reoleiddio:<br>(a) lefel dŵr mewn prif afon,<br>(b) llif dŵr mewn prif afon, neu i mewn neu allan o brif afon<br>(c) tynnu dŵr o, neu ddod â dŵr i mewn i, brif afon, ac mae'n cynnwys unrhyw lifddorau, fflodiardau, coredau, falfiau, cafnau, 'penstocks', lociau, argaeau, pympiau, peiriannau pwmpio neu bibellau. |
| Llifogydd afonol | Mae'n digwydd pan fo lefelau dŵr mewn sianel yn gorlethu cynhwysedd y sianel. |
| Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) | Safleoedd a ddiogelir gan y gyfraith i gadw eu bioamrywiaeth neu eu daeareg. |
| Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) | Ardaloedd a ddynodwyd dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd y CE sy'n rhoi'r cynrychioliad gorau o'r ystod a'r amrywiaeth o fewn yr Undeb Ewropeaidd o gynefinoedd a rhywogaethau ac eithrio adar a restrir yn Atodiadau I a II y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. |

| | |
|---|---|
| Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) | Ardaloedd a ddosberthir dan Gyfarwyddeb Adar y CE fel y cynefin pwysicaf ar gyfer adar prin a mudol o fewn yr Undeb Ewropeaidd. |
| Llifogydd dŵr wyneb | Llifogydd sy'n deillio o ddŵr glaw (gan gynnwys eira a gwlybaniaeth arall) nad yw wedi mynd i mewn i gwrs dŵr, system ddraenio neu garthffos gyhoeddus. |
| Cwrs dŵr | Pob afon, ffrwd, ffos, draen, camlas, cwlfer,cob, llifddor, carthffos a sianel y mae dŵr yn llifo drwyddynt, ac eithrio carthffos gyhoeddus. |